

Mae cangen NatWest Port Talbot yn cau ar 8fed Medi 2026

Dyma ganllaw i egluro beth mae hynny'n ei olygu i chi.



NatWest

Cynnwys

Rydyn ni'n dal yma i helpu	4
Ffyrdd eraill o fancio	5–8
Cymorth i gwsmeriaid	9
Sut mae bancio'n newid	10
Sut rydyn ni'n penderfynu cau cangen	11
Rhestr termau	13

Mynediad at wasanaethau arian parod



Sganiwch y cod QR neu ewch i natwest.com/access-to-cash i gael gwybod am yr holl ffyrdd o gael mynediad at wasanaethau arian parod.

Os oes angen cymorth arnoch gyda chodau QR, gweler y Rhestr Termau ar dudalen 13.

Rydyn ni wedi llunio'r canllawiau hyn i'ch cefnogi chi drwy gyfnod y newidiadau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl, gofynnwch i un o'n tîm.

Rydyn ni'n dal yma i helpu

Er bod eich cangen yn cau, rydyn ni'n dal yma i helpu.

Gallwch chi wneud eich bancio pob-dydd mewn ffyrdd eraill. Gallwch ganfod rhagor o opsiynau ar dudalen 7. Os ydych chi'n awyddus i ofyn unrhyw beth i ni neu fod angen cefnogaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'n harbenigwyr ymroddgar ar **0131 380 6528**. Ar gyfer Relay UK, deialwch **18001 0131 380 6528**. Gall galwyr rhyngwladol gael gafael arnom ar **+44 131 380 6528**.

Cofiwch na fydd unrhyw newid i rifau cyfrifon, codau didoli, archebion sefydlog, Debydau Uniongyrchol, cardiau, rhifau PIN na llyfrau siec cwsmeriaid.

Fformatau Braille, print bras neu sain?

Gall ein harbenigwyr helpu hefyd os ydych yn dymuno cael y canllawiau hyn ar ffurf wahanol, fel braille, print bras, CD sain neu iaith arall. Ffoniwch ni ar **0131 380 6528**. Ar gyfer Relay UK, deialwch **18001 0131 380 6528**. Gall galwyr rhyngwladol gael gafael arnom ar **+44 131 380 6528**. Gallwch hefyd siarad â'n tîm yn y gangen.

Beth yw Relay UK?

Mae Relay UK yn wasanaeth di-dâl i helpu pobl fyddar a'r rhai sydd â diffyg ar y clyw neu nam ar y lleferydd i gyfathrebu dros y ffôn.

Gallwch ddefnyddio ap Relay UK gyda'ch ffôn symudol, dyfais tabled neu gyfrifiadur. Neu defnyddiwch Relay UK drwy'ch Minicom neu Uniphone drwy ddeialu 18001 cyn y rhif rydych am ei ffonio a byddwch yn cael eich cysylltu â swyddog ffôn.

Sut gall Banking My Way fy nghefnogi?

Os yw eich sefyllfa wedi newid a bod angen cefnogaeth ychwanegol gyda bancio arnoch chi, rhowch wybod i ni. Er enghraifft, efallai bod eich sefyllfa ariannol wedi newid neu eich bod wedi cael diagnosis o salwch difrifol.

Mae Banking My Way yn ei gwneud yn rhwydd i chi gofnodi pa gymorth neu addasiadau sydd angen arnoch, gan wneud bancio yn fwy syml i chi.

Sut ydw i'n rhoi gwybod i chi pa gefnogaeth sydd ei hangen arnaf?

Gallwch chi wneud hyn ar yr Ap Symudol, drwy Fancio Ar-lein, drwy fynd i gangen neu ffonio ein harbenigwyr ymroddgar.

Y Canghennau agosaf at Bort Talbot

Galwch i mewn i unrhyw gangen NatWest. Mae gan bob un fynediad gwastad neu â ramp oni bai bod hynny wedi'i nodi ar ein lleolwr canghennau, ac mae rhestr lawn o'r holl ganghennau eraill, y gwasanaethau ac unrhyw newidiadau i oriau agor yn [natwest.com/locator](https://www.natwest.com/locator) Gallai'r oriau agor safonol a restrir newid.

Oeddech chi'n gwybod? Mae ein peiriannau ATM yn cynnwys labeli Braille, rhifau wedi'u codi, a bysellau lliw ar gyfer cofnodi a gwallau.

1. NatWest Canol Dinas Abertawe

14-16 Stryd Rhydychen Abertawe SA1 3AG 10.10 milltir	Dydd Llun	9.30am-4.30pm
	Dydd Mawrth	9.30am-4.30pm
	Dydd Mercher	10am-4.30pm
	Dydd Iau	9.30am-4.30pm
	Dydd Gwener	9.30am-4.30pm
	Dydd Sadwrn	9.30am-1pm
	Dydd Sul	Ar gau

Cyfleusterau'r gangen:

- ✓ Mynediad Cadair Olwyn
- ✓ Dolen Sain
- ✓ Agor ar Ddydd Sadwrn
- ✓ Gwasanaeth ATM Allanol
- ✓ Gwasanaeth ATM Mewnol
- ✓ Peiriant Talu Arian Parod a Sieciau i Mewn
- ✓ Peiriant Derby Symptiau Darnau Arian
- ✓ Peiriant Talu i Mewn Awtomatig

2. NatWest Penybont-ar-Ogwr

28 Stryd Adare Penybont-ar-Ogwr CF31 1EN 15.57 milltir	Dydd Llun	9.30am-4.30pm
	Dydd Mawrth	9.30am-4.30pm
	Dydd Mercher	10am-4.30pm
	Dydd Iau	9.30am-4.30pm
	Dydd Gwener	9.30am-4.30pm
	Dydd Sadwrn	Ar gau
	Dydd Sul	Ar gau

Cyfleusterau'r gangen:

- ✓ Mynediad Cadair Olwyn
- ✓ Dolen Sain
- ✗ Agor ar Ddydd Sadwrn
- ✓ Gwasanaeth ATM Allanol
- ✓ Gwasanaeth ATM Mewnol
- ✓ Peiriant Talu Arian Parod a Sieciau i Mewn
- ✓ Peiriant Derby Symptiau Darnau Arian
- ✓ Peiriant Talu i Mewn Awtomatig

3. NatWest Blaenau'r Cymoedd

122 Y Stryd Fawr Merthyr Tudful CF47 8BN 30.16 milltir	Dydd Llun	9.30am-3.30pm
	Dydd Mawrth	9.30am-3.30pm
	Dydd Mercher	10am-3.30pm
	Dydd Iau	9.30am-3.30pm
	Dydd Gwener	9.30am-3.30pm
	Dydd Sadwrn	Ar gau
	Dydd Sul	Ar gau

Cyfleusterau'r gangen:

- ✓ Mynediad Cadair Olwyn
- ✓ Dolen Sain
- ✗ Agor ar Ddydd Sadwrn
- ✓ Gwasanaeth ATM Allanol
- ✓ Gwasanaeth ATM Mewnol
- ✓ Peiriant Talu Arian Parod a Sieciau i Mewn
- ✓ Peiriant Derby Symptiau Darnau Arian
- ✓ Peiriant Talu i Mewn Awtomatig

Cwsmeriaid busnes

Er y gallwch ddefnyddio unrhyw un o'n canghennau NatWest neu Swyddfa'r Post, gallwch reoli eich cyfrifon a'ch taliadau 24/7 gyda Bankline neu Fancio Ar-lein. Ochr yn ochr â'n cynigion digidol, gallwn gefnogi eich anghenion arian parod gydag opsiynau cludwyr neu ein cistiau diogel ar ein safleoedd.

I gael rhagor o wybodaeth siaradwch â'ch cyswllt arferol neu ewch i business.natwest.com/ways-to-bank

Canolfannau Bancio

Rydyn ni wedi gweithio gyda Cash Access UK a Banciau eraill y DU i agor Canolfannau Bancio. Gallwch gael mynediad at wasanaethau cownter o ddydd Llun i ddydd Gwener, a bydd aelod o'n tîm NatWest wrth law un diwrnod yr wythnos i helpu cwsmeriaid Personol a Busnes gyda chwestiynau mwy penodol. I gael gwybod mwy, ewch i natwest.com/bankingnearme#bh

Edrychwch ar y Rhestr Termau ar dudalen 13 i gael rhagor o wybodaeth am Ganolfannau Bancio.

Bancio yn Swyddfa'r Post

Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi ddefnyddio'ch cerdyn debyd i wirio'ch balans, tynnu arian parod allan a'i dalu i mewn yn Swyddfa'r Post*? Gallwch chi hefyd dalu sieciau ac arian parod i mewn gyda slip credyd â chod bariau. Gall cwsmeriaid busnes wneud hyn oll hefyd a gallant gofrestru i ddefnyddio ein gwasanaeth rhoi newid. Bydd eich cyswllt yn y banc yn gallu egluro ymhellach.

*Nodwch fod terfynau'n berthnasol i dynnu arian parod a'i dalu i mewn.

Gweler isod 3 cangen o Swyddfa'r Post sydd gerllaw cangen Port Talbot.

Port Talbot	Taibach	Heol Treforys
0.29 milltir	0.84 milltir	1.84 milltir
Llun-Sad 9am-5:30pm (Sad Cau 12.30pm)	Llun-Sad 9am-5:30pm (Sad Cau 12.30pm)	Llun-Sad 9am-5:30pm (Sad Cau 1pm)

I gael gwybod mwy am fancio yn Swyddfa'r Post, gallwch gysylltu â:

- chydweithiwr yn y gangen
- chydweithiwr yn eich cangen leol o Swyddfa'r Post
- eich cyswllt yn y banc.

Neu ewch i postoffice.co.uk/branch-finder i ddod o hyd i'ch cangen agosaf o Swyddfa'r Post.

Peiriannau arian parod di-dâl agosaf

Gorsaf Betrol Petrogas, Heol Talbot

Cymdeithas Adeiladu Nationwide, 79 Heol yr Orsaf

Lloyds, 115 Heol yr Orsaf

Efallai bod peiriant arian parod agosach sydd yn codi ffi. I weld y rhestr gyflawn ewch i link.co.uk

Gwasanaethau PayPoint

Mae PayPoint yn cynnig gwasanaethau talu mewn siopau i gwsmeriaid – gan gynnwys talu biliau a swyddogaethau arian parod. I ganfod eich cangen agosaf ewch i consumer.paypoint.com

Ffyrdd eraill o wneud eich bancio pob-dydd



Ap Bancio Symudol NatWest

Gyda'n ap symudol cyfleus, gallwch chi wneud llawer o bethau bancio heb orfod mynd i mewn i gangen.

- gwirio balansau a throsglwyddo arian rhwng cyfrifon
- tynnu arian allan drwy ddefnyddio Get Cash
- talu biliau, eich cysylltiadau a rhywun newydd... a llawer mwy.

A gallwch chi wneud hyn oll 24 awr y dydd lle bynnag y byddwch.

Mae rhagor o wybodaeth yn natwest.com/mobilebanking

Mae'r ap ar gael i gwsmeriaid dros 11 oed sydd â dyfeisiau iOS ac Android cydnaws a rhif ffôn y DU neu ryngwladol mewn gwledydd penodol. Get Cash: Tynnwch hyd at £130 allan bob 24 awr mewn unrhyw beiriant arian parod NatWest neu Royal Bank of Scotland, cyn belled â'i fod o fewn eich terfyn dyddiol ar gyfer tynnu arian allan. Rhaid bod gennych o leiaf £10 ar gael yn eich cyfrif. I dalu biliau, rhywun newydd neu eich cysylltiadau, mae terfynau'n berthnasol a rhaid eich bod dros 16 oed.



Bancio drwy Fideo NatWest

Sgwrsiwch â ni wyneb yn wyneb o'ch cartref cysurus. Bydd angen cysylltiad â'r rhyngwyd arnoch a dyfais â camera neu we-gamera. Mae'r arbenigwyr wrth law a gallwn ni roi Gwiriad Iechyd Ariannol di-dâl i chi - ac mae gennym wasanaeth morgais arbenigol nawr hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth yn natwest.com/videobanking

Gellir recordio galwadau bancio drwy fideo ac mae'n amodol ar oriau'r gwasanaeth. Mae angen dyfais gydnaws.



Bancio Ar-lein Personol a Busnes NatWest

Holl nodweddion Bancio Symudol gyda'r gallu i wneud mwy, megis:

- gweld hyd at saith mlynedd o gyfriflenni
- gosod hysbysiadau e-bost neu destun.

Cofrestrwch ar gyfer Bancio Ar-lein Personol neu Fusnes yn natwest.com/onlinebanking



Bancio ar y Ffôn Personol a Busnes NatWest

Ar gyfer ymholiadau bancio ar y ffôn personol, ffoniwch **03457 888 444** (Relay UK **18001 03457 888 444**).

Cwsmeriaid Premier, ffoniwch **0333 202 3330** (Relay UK **18001 0333 202 3330**).

Ymholiadau bancio ar y ffôn busnes, ffoniwch **03457 11 44 77** (Relay UK **18001 03457 11 44 77**).

Gall cwsmeriaid busnes siarad â'u cyswllt yn y banc hefyd.

Math o drafodion	Cangen NatWest	Swyddfa'r Post	ATM NatWest	Peiriant Talu Sieciau ac Arian Parodi Mewn	ATM brand banc arall	Ar-lein neu Ap Symudol	Bancio ar y Ffôn	Bancio drwy Fideo	Canolfan Bancio
Tynnu arian parod allan	●	●	●	●	●				●
Talu arian parod neu sieciau i mewn	●	●		●		● * Sieciau drwy'r Ap Symudol yn unig			●
Rhoi Newid	●	▲							▲
Ymholiadau balans	●	●	●	●	●	●	●		●
Cyfriflen/trafodion diweddar	●		●	●		●	●		● * Dangos yn unig
Gwneud taliadau/trosglwyddo arian/talu biliau	●			●		●	●		●
Ymholiadau Bancio cyffredinol	●					●	●		●
Gwiriad lechyd Ariannol	●						■	■	
Cefnogaeth ychwanegol drwy ein Harbenigwyr Cymorth i Gwsmeriaid							■	■	●

■ Cwsmeriaid Personol yn unig

▲ Cwsmeriaid Busnes yn unig

● Pob Cwsmer



Neu, i gael rhagor o fanylion am yr holl ffyrdd o wneud eich bancio personol neu fusnes gyda NatWest, sganwch y cod QR perthnasol neu dilynwch y dolenni a ddarperir.



Bancio personol

natwest.com/banking-with-natwest

Bancio busnes

business.natwest.com/ways-to-bank

Sut gallwn ni helpu os oes angen cefnogaeth ychwanegol arnoch chi gyda'ch bancio

Os oes angen cefnogaeth ychwanegol arnoch chi, byddwn yn parhau i ddarparu hynny.

- Bydd ein harbenigwyr yn rhoi galwad i chi dros yr wythnosau nesaf, ac yn rhoi cymorth a chyngor personol i chi i wneud yn siŵr y gallwch chi fancio mewn ffordd sy'n gweithio i chi.
- Byddwn ni'n cynnal digwyddiad wyneb-yn-wyneb yn y gangen i'r rhai y gallai fod yn well ganddynt siarad â rhywun cyfarwydd.
- Byddwn yn eich helpu i ddod o hyd i'r gangen agosaf o Swyddfa'r Post ac yn dweud wrthoch chi pa wasanaethau y gallwch eu defnyddio, gan gynnwys cefnogaeth barhaus ar gyfer defnyddio ein gwasanaethau digidol.
- Bydd ein Cyfarwyddwyr Lleol yn cysylltu â sefydliadau lleol i roi gwybod iddynt am y cau, gan gydwethio i helpu cwsmeriaid a'r gymuned ar ôl i'r gangen gau.
- Os oes angen cefnogaeth bellach arnoch neu fod eich amgylchiadau wedi newid, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio ein gwasanaeth di-dâl Banking My Way. Ewch i natwest.com/banking-my-way

Sut byddwn yn cefnogi yn y cyfnod yn arwain at gau'r gangen

Ymunwch â ni yn ein digwyddiad Cau Cangen wyneb-yn-wyneb, fydd yn darparu:

- help i ddod o hyd i'r gwasanaethau bancio lleol iawn a fydd yn eich cynorthwyo i fancio gyda ni unwaith y bydd eich cangen yn cau
- cyfle i siarad â'n harbenigwyr i'ch helpu i ddeall y dulliau twyllo a sgamio diweddaraf
- cefnogaeth gyda'r holl ffyrdd y gallwch barhau i fancio gyda ni.

Dewch i weld ein tîm yn y gangen er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad Cau Cangen.

Sut byddwn ni'n eich cefnogi chi unwaith y bydd y gangen wedi cau

Byddwn yn cyflwyno gwasanaeth cymunedol dros dro wedi i'r gangen gau, mewn lleoliad cymunedol yn agos at y gangen sy'n cau. Bydd y gwasanaeth hwn yn hygyrch i bawb a bydd ar gael am hyd at 12 wythnos, gyda chydweithiwr lleol ar gael i ddarparu cymorth gyda:

- sgysiau wyneb-yn-wyneb am eich anghenion bancio
- cymorth gyda gosod a defnyddio ein gwasanaethau digidol
- cynghorion er mwyn cadw'n ddiogel rhag twyll a sgamiau.


Gwasanaeth heb arian parod ydy hwn, fodd bynnag byddwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y gallwch ddefnyddio eich cangen leol o Swyddfa'r Post ar gyfer trafodion arian parod.

Yn yr wythnosau sydd i ddod, bydd modd i chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'ch gwasanaeth cymunedol dros dro yn y gangen neu drwy fynd i natwest.com/bankingnearme#community


Mae'r ffordd rydym yn bancio yn newid

Gyda bancio symudol ac ar-lein mor rhwydd, mae llai o bobl yn dod i mewn i'r banc. Mae hynny'n golygu ein bod wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd ynglŷn â pha rai all aros ar agor. Felly, rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cadw'r canghennau y mae pobl yn eu defnyddio fwyaf.

Ar draws y banc, rydym wedi gweld.



Bu gostyngiad yng nghyfrataledd y trafodion cownter o **74%** rhwng Ionawr 2020 a Ionawr 2026



Cynyddodd nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio apiau symudol o **68%** rhwng Ionawr 2020 a Ionawr 2026

Y mesur yn y ddau graff ydy miliynau

Cafodd mwy nag

823

miliwn o drafodion symudol ac ar-lein eu prosesu rhwng Chwefror 2025 a Ionawr 2026.

Ein cyfrifoldeb i chi

Rydyn ni'n deall yn llwyr nad yw bancio ar-lein yn iawn i bawb. Weithiau byddwch eisiau sgwrsio drwy bethau gyda rhywun. Rydyn ni'n addo y byddwch yn dal i allu siarad ag un o'n tîm naill ai dros y ffôn, drwy fideo neu yn un o'n canghennau eraill.

Eich opsiynau bancio

Byddan nhw wrth law i'ch helpu chi i ganfod ffyrdd y gallwch chi fancio sydd yn gweddu orau i'ch anghenion. Rydyn ni yma hefyd ar gyfer unrhyw un fyddai'n hoffi cymorth wrth ddechrau gyda bancio ar-lein neu ein ap. Yn ogystal â fideos Sut i Wneud byrion, hawdd eu dilyn, rydyn ni'n cynnal dosbarthiadau ar-lein dros Zoom. Mae popeth y mae angen i chi ei wybod ar ein gwefan [natwest.com/onlinebanking](https://www.natwest.com/onlinebanking) (Ac mae rhai cynghorion defnyddiol ynglŷn ag ymwybyddiaeth o dwyll a sgamiau yno hefyd.)

Sut rydyn ni'n penderfynu cau cangen

Mae cau cangen wastad yn anodd ac nid yw byth yn benderfyniad y byddwn yn ei gymryd yn ysgafn. Mae penderfyniad i gau cangen yn golygu ein bod yn edrych ar nifer o feini prawf gwahanol, gan gynnwys:

- yr effaith debygol ar gwsmeriaid. Pa mor aml mae cwsmeriaid yn defnyddio'r gangen – a'r trafodion a wnânt.
- eu dewisiadau o ran bancio.
- ble mae'r gangen agosaf a'r peiriannau arian parod agosaf.
- a oes cangen leol o Swyddfa'r Post ar gyfer bancio pob-dydd.
- yr holl opsiynau bancio eraill: Bancio Ar-lein, Symudol, Ffôn a thrwy Fideo.
- gwasanaethau a rennir gerllaw fel Canolfannau Bancio a pheiriannau talu i mewn.

Diogelu mynediad at arian parod



Rydyn ni eisiau sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei ddiogelu ble bynnag y mae gennym gwsmeriaid. Rydyn ni'n gweithio gyda LINK i gynnal asesiadau mynediad at arian parod mewn mannau lle gall fod angen gwell gwasanaethau cyrchu arian parod.

Mae hynny'n golygu ein bod yn gofyn i LINK gynnal asesiadau mynediad at arian parod annibynnol pryd bynnag y byddwn yn cau cangen neu'n gwaredu peiriant ATM. Gall LINK gynnal asesiadau hefyd pan fydd gwasanaethau arian parod a gynigir gan ddarparwyr eraill yn cael eu gwaredu neu pan fydd y gymuned leol yn gwneud cais amdanynt.

Os caiff gwasanaethau arian parod newydd eu hargymell gan LINK, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y diwydiant i ddiogelu mynediad at arian parod mewn cymuned. Gallai hynny gynnwys gosod peiriant ATM newydd neu Ganolfan Bancio.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut mae LINK yn diogelu mynediad at arian parod yn link.co.uk

Ym Mhort Talbot, gwelon ni:



Dewisodd 77% o gwsmeriaid personol a ddefnyddiodd y gangen ddefnyddio Bancio Ar-lein neu ein ap symudol hefyd rhwng Chwefror 2025 a Ionawr 2026.

- Defnyddiodd **245** o gwsmeriaid personol ac **84** o gwsmeriaid busnes y gangen hon 12 neu fwy o weithiau rhwng Chwefror 2025 a Ionawr 2026.

Gweler y Rhestr Termau ar dudalen 13 am ddiffiniadau o drafodion cownter ac ar-lein.

Mae eich barn o bwys

Dyna pam rydyn ni'n cysylltu â'n cwsmeriaid ac yn ymgysylltu â'r gymuned leol i siarad am ein penderfyniad. Byddwn ni'n diweddarau'r canllawiau hyn gyda manylion pwy rydyn ni wedi cysylltu â nhw, crynodeb o'r ymatebion ac unrhyw gwynion. Byddwch chi'n gallu darllen y canlyniadau yn natwest.com/branchclosures erbyn 25ain Awst 2026.

Rhestr termau

- **Bancio pob-dydd** – cwsmeriaid yn gwneud defnydd o wasanaethau mewn cangen megis talu arian parod i mewn, tynnu arian parod allan a thalu sieciau i mewn.
- **Banking My Way** – Mae Banking My Way yn wasanaeth di-dâl sydd yn eich galluogi i gofnodi gwybodaeth ynglŷn â'r cymorth neu addasiadau y mae eu hangen arnoch i wneud bancio'n rhwyddach. Gallwch chi wneud hyn ar yr Ap Symudol, drwy Fancio Ar-lein, drwy roi galwad i ni neu fynd i gangen.
- **Bankline** – mae Bankline yn galluogi cwsmeriaid i reoli nifer o gyfrifon banc, gweld yr holl drafodion mewn amser real a gwneud taliadau domestig a rhyngwladol diogel.
- **Canolfannau Bancio** – mae Canolfannau Bancio yn darparu gwasanaethau arian parod a bancio wyneb-yn-wyneb mewn cymunedau lleol ledled y Deyrnas Unedig. Maent yn cael eu cynnal gan Swyddfa'r Post ac yn eiddo i Cash Access UK. Maent ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener 9am-5pm, ac mae gan bob Canolfan Bancio gownter lle gall unrhyw un dalu arian neu sieciau i mewn, tynnu arian allan, gwirio balansau, a thalu biliau. Gallwch chi ymweld ag aelod o'n tîm ar ein diwrnod ni yn y ganolfan, ac mae manau preifat ar gael ar gyfer sgysiaid cyfrinachol.
- **Cod QR** – math o god bariau y gall dyfeisiau digidol fel ffonau clyfar ei ddarllen yn rhwydd, ac sydd yn cyfeirio defnyddwyr at dudalen we benodol ar unwaith. I gael mynediad at ddolen cod QR, agorwch eich camera ar eich dyfais glyfar, ei bwyntio at y cod QR a chlicio ar y blwch melyn sy'n ymddangos. Byddwch yn cael eich cyfeirio i'r dudalen we wedyn.
- **Cyfarwyddwyr Lleol** – sydd yn gyfrifol am arolygu a rheoli nifer o ganghennau ar draws ardal ddaearyddol benodol.
- **Get Cash** – swyddogaeth ar ein ap symudol sydd yn galluogi cwsmeriaid i dynnu arian allan yn gyflym heb ddefnyddio cerdyn banc.
- **Gweithredol yn ddigidol** – cwsmeriaid sydd yn defnyddio ein ap symudol neu Fancio Ar-lein.
- **LINK** – Rhwydwaith peiriannau arian parod mwyaf y Deyrnas Unedig, sy'n cysylltu fwy neu lai bob un o beiriannau ATM y DU ac yn darparu mynediad at arian parod i gymunedau drwy wasanaethau megis cael arian yn ôl wrth dilliau mân-werthwyr ac mewn Canolfannau Bancio.
- **Pellter** – cyfrifir pellteroedd ar sail y pellter gyrru byrraf o god post cangen sy'n cau i god post y gangen agosaf a chodau post y Swyddfeydd Post agosaf.
- **Slip credyd â chod bariau** – slip talu-i-mewn sydd â chod bariau arno ar ffurf y gall peiriant ei ddarllen.
- **Trafodion ar-lein** – trosglwyddiad, taliad neu addasiad i daliad drwy'r ap symudol neu Fancio Ar-lein.
- **Trafodion cownter** – gwasanaethau a gyflawnir gan gwsmer mewn cangen gyda chynrychiolydd o'r banc, megis talu arian parod a sieciau i mewn neu dynnu arian parod allan.

Gellir recordio galwadau. Bancio ar-lein ar gael i gwsmeriaid dros 11 oed sydd â chyfrif NatWest. Mae Bancio Busnes Ar-lein a Bankline ar gael i gwsmeriaid sydd â chyfrif busnes NatWest. Gall fod ffoedd.

Ffeithiau'n gywir ar 01 Mawrth 2026.

NatWest, enw busnes ar National Westminster Bank Plc (“NatWest”),
wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestredig 929027).
Swyddfa Gofrestredig: 250 Bishopsgate, Llundain EC2M 4AA.
Awdurdodwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a rheoleiddiwyd
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio
Darbodus. Mae NatWest ar y Gofrestr Gwasanaethau Ariannol (Rhif
Cofrestru 121878).

P844150 V1 000004



NatWest